| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **190 - Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Hydref 2020* | |
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydynt |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 99 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion ("REACH"). Diben y diwygiadau yw helpu i sicrhau bod y DU yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael fel y bydd cyfundrefn REACH yr UE yn parhau i weithredu yng Ngogledd Iwerddon ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer parhau i gael mynediad at nwyddau Gogledd Iwerddon ar gyfer marchnad Prydain Fawr, gan

gynnwys proses hysbysu ar gyfer pan roddir sylweddau ar farchnad Prydain Fawr ac amserlenni cymwys ar gyfer hysbysiadau.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 20 Hydref 2020, am effaith y Rheoliadau hyn:

- Mae'r datganiad yn cynnwys crynodeb cyfyngedig o'r Rheoliadau a'r hyn y maent yn ei wneud yn ymarferol. Mae Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau yn nodi'r canlynol:

  > *"These Regulations create two versions of the REACH Enforcement Regulations 2008. One will apply to Great Britain, including to offshore installations other than those in the UK territorial sea adjacent to Northern Ireland. The other will apply to Northern Ireland, including to offshore installations in the UK territorial sea adjacent to Northern Ireland. These Regulations also provide for Northern Irish entities to be able to exercise certain functions under the GB REACH Regulation. Related GB REACH offences will be applied to Northern Ireland by the Northern Irish version of the REACH Enforcement Regulations."*

  Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i gyfeirio at y ffordd y bydd gan Ogledd Iwerddon fynediad at farchnad Prydain Fawr ac at y terfynau amser cymwys ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am fewnforio cemegion i Brydain Fawr.

  Ni roddir manylion yn y datganiad ynghylch y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau mewn perthynas â mewnforio cemegion o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr yn dilyn diwedd y cyfnod pontio a pha effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol, os o gwbl, y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael ar y diwydiant cemegion yng Nghymru. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn argymell ceisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael ar Gymru.

- Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd

(Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.